

Rhodfa Abertawe



Roedd Heol Ystumllwynarth a Pharêd y Cei yn rhwyst rhwng canol y ddinas a Glannau Abertawe. Roedd angen gwella'r cysylltiadau rhwng siopau canol y ddinas, yr Ardal Forol, SA1 a'r promenâd i annog mwy o bobl i feicio a cherdded, a fyddai'n hybu busnesau lleol a denu mwy o fuddsoddiad. Byddai gwella golwg y llwybr hefyd yn annog buddsoddiad gan y sector preifat a rhoi gwell argraff o Abertawe ar breswylwyr, teithwyr ac ymwelwyr â'r ddinas. Mae gwelliannau amgylcheddol ar hyd y llwybr rhwng Pontydd Afon Tawe a Ffordd y Dywysoges yn cynnwys tywodfaen pafin, a phalmentydd mwy llydan i gerddwyr; gwell gyfleusterau i feicwyr; arwyneb ffordd llawer gwell; croesfannau o safon i gerddwyr a beicwyr mewn lleoliadau allweddol; mwy o wyrddni a chelfi stryd newydd. Mae technoleg arwyddion traffig well ar hyd y llwybr hefyd yn hwyluso llif traffig ar hyd y prif lwybr prysur iawn hwn. Roedd y cynllun wedi'i rannu'n ddau brosiect ar wahân ac, ar ôl proses dendro lwyddiannus, cafodd contract ar gyfer y gwaith ei ddyfarnu i Costain Civil Engineering Ltd ym mis Chwefror. Cafodd ail gam y gwaith i gwblhau'r Rhodfa ei ddyfarnu i Costain. Yn hollbwsig i lwyddiant y cynllun hwn oedd y llif cyson parhaol o draffig drwy'r gwaith. Yn ogystal, datblygwyd cynlluniau rheoli traffig manwl yn ystod y cam dylunio ac fe fabwysiadwyd yn lwyddiannus gan y contractwr.

•**Cleient:** Adran Adfywio Dinas a Sir Abertawe

•**Cyllid:** Cronfa Gyddyfeirio Llywodraeth Cynulliad Cymru

•**Gwerth:** £9m

•**Lleoliad:** Canol Dinas Abertawe

•**Dyddiadau Gwasanaeth:** 2009 – 2014

•**Gwasanaethau:** Dichonoldeb, Dylunio a Goruchwyllo

•**Contractwr:** Costain Civil Engineering Ltd

